**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 9 Medi 2016**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Graham Probert, Richard Rogers, Wyn Williams a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Carol Driver (Llywodraeth Cymru)
Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru)

**Tîm Gweithredol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Prys Morgan (Pennaeth Gweithrediadau)

Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
Owen Roberts (Arweinydd Cyfathrebu)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Yn benodol, croesawyd Carol Driver, Llywodraeth Cymru, a Rhys Llywelyn, a oedd newydd ei benodi'n Rheolwr Datblygu'r Farchnad i HCC.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am fynychu Sioe Frenhinol Cymru.
Diolchodd y Bwrdd i'r staff am eu gwaith caled a'u hymdrechion yn gwneud presenoldeb HCC yn llwyddiant.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Gorffennaf 2016*

Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Pennaeth Gweithrediadau â chynrychiolwyr o'r Gymdeithas Bridd lle trafodwyd materion yn ymwneud â'r sector cig coch organig.

Bu'r Cadeirydd yn Sioe Frenhinol Cymru 2016 drwy gydol y Sioe a bu'n cynrychioli HCC mewn nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd yn ymwneud â'r diwydiant.

*Awst 2016*

Ymunodd y Cadeirydd â staff HCC ar Daith Drelar HCC i siopau yng Nghaerfyrddin a Bangor.

Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â'r Ysgrifennydd Cabinet, Lesley Griffiths AC ar 8 Awst 2016. Cafodd yr Ysgrifennydd Cabinet ddiweddariad ynghylch Mamwladoli Ardoll Cig Coch Prydain, cylch gwaith HCC a gweithgareddau i ddod.

Bu'r Cadeirydd yn Sioe Môn a Sioe Sir Benfro.

Nodwyd diolch i Richard Tudor am fynychu Sioe Dinbych a'r Fflint yn lle'r Cadeirydd.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Richard Tudor.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd - John Brereton a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2016 (HCC 706)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Llywodraeth Cymru – Bwrdd Bwyd a Diod Cymru*

Nodwyd y byddai Andy Richardson, Cadeirydd y Bwrdd uchod, yn rhoi cyflwyniad i Fwrdd HCC yn y cyfarfod nesaf ddydd Gwener 4 Tachwedd 2016.

*Fforwm Cig Defaid yr UE*

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r pedwerydd, a'r olaf, o gyfarfodydd y Fforwm gyda Chomisiynydd Hogan yn bresennol, yn cael ei gynnal ym Mrwsel ar 13 Hydref 2016.

Roedd y Fforwm yn bwriadu adolygu'r argymhellion a wnaed yn y cyfarfodydd blaenorol. Byddai'r argymhellion yn llwyfan i fframwaith polisïau cadarn ar gyfer

sector cig defaid cynaliadwy yn Ewrop a chyflwynid yr argymhellion i'r Comisiynydd Hogan i'w hystyried.

Byddai'r Prif Weithredwr yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 707)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 708)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Dywedyd bod yna bryderon yn y sectorau cynradd a phrosesu ynghylch effaith niweidiol y gallai Brexit ei gael ar fasnach yn y 27-UE.

c. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Mehefin 2016 (HCC 709)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 710)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Roedd HCC ar hyn o bryd wrthi'n trefnu digwyddiad am y farchnad allforio i Aelodau'r Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod mis Tachwedd 2016. Câi'r Bwrdd wahoddiad i'r digwyddiad.

e. *I gael briff ar Gynhadledd Flynyddol HCC, Ddydd Iau 10 Tachwedd 2016*

Bu'r Arweinydd Cyfathrebu yn rhoi manylion am y trefniadau ar gyfer cynhadledd flynyddol HCC a gynhelid ddydd Iau 10 Tachwedd 2016:-

Cynhelid cinio cyn y gynhadledd ar gyfer y Bwrdd, siaradwyr a'r Weithrediaeth yng Ngwesty Seiont Manor, Llanrug, Caernarfon, LL55 2AQ.

Byddai'r gynhadledd eleni yn cael ei chynnal yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, LL57 2AQ

Roedd y siaradwyr yn cynnwys:-

- Yr Ysgrifennydd Cabinet
- Yr Athro David Hughes (Athro Emeritws Marchnata Bwyd yng Ngholeg Imperial, Llundain)
- Gwyn Howells

- Andrew Slade, Llywodraeth Cymru
- Ken Sorenson, Asiant Allforio HCC yn Sgandinafia
- Huw Williams a Richard Roderick, Ysgolorion HCC

Cyn y gynhadledd, roedd y Weithrediaeth yn cynnig y gellid cynnal ymarfer ‘syniadau dilyffethair’ gyda’r Bwrdd brynhawn dydd Mercher 9 Tachwedd 2016 ynghylch Cynllun Busnes HCC 2017 / 2018.

Cytunwyd ar hyn gan y Bwrdd a byddai gwybodaeth bellach ar gael maes o law.

Un argymhelliad o Adolygiad HCC oedd y dylai “HCC gynnal cyfarfod blynyddol ffurfiol a gâi ei ddarlledu’n fyw er mwyn cael yr ymgysylltiad a’r ddealltwriaeth gorau posibl o waith y sefydliad”.

Felly, cynigiodd y Weithrediaeth y tro hwn y dylid cynnal Fforwm Talwyr Ardoll cyn y gynhadledd ddydd Iau 10 Tachwedd 2016. Byddai hyn yn gyfle i Fwrdd HCC ymgysylltu yn uniongyrchol â thalwyr Ardoll mewn sesiwn holi ac ateb am weithgareddau HCC.

Cytunwyd ar hyn gan y Bwrdd a byddai gwybodaeth bellach ar gael maes o law.

7. **<u>I drafod canlyniad Refferendwm yr UE - Brexit</u>**

Cafwyd trafodaeth o gwmpas y bwrdd ynghylch yr uchod.

Cafwyd crynodeb gan Gary Haggaty ynghylch amcanion a swyddogaeth Amaeth Cymru o ran darparu arweiniad strategol i’r diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Cafodd Kevin Roberts ei benodi’n Gadeirydd y Grŵp Partneriaeth hwn. Byddai’r Grŵp yn chwarae rhan allweddol gydag eraill yn darparu tystiolaeth ar gyfer agenda Brexit.

Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cynnal cyfarfodydd cychwynnol o gwmpas y bwrdd gyda nifer o randdeiliaid i drafod goblygiadau canlyniad y refferendwm.

Gan edrych tua’r dyfodol, roedd nifer o weithdai yn cael eu trefnu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae’r diwydiant / rhanddeiliaid yn ystyried y cyfleoedd allweddol, risgiau a bygythiadau i’r broses o greu dyfodol cynaliadwy i’r sectorau amaethyddiaeth, pysgodfeydd a’r amgylchedd yng Nghymru yn dilyn ymadawiad y DG o’r UE.

Hyd yma, cynhaliwyd y gweithdai â themâu a ganlyn:-

Gweithdy 1 - Cynnyrch cynradd a’r defnydd o dir a rheoli’r môr
Gweithdy 2 – Marchnadoedd a chadwyni cyflenwi
Gweithdy 3 – Defnyddwyr a gwasanaethau
Gweithdy 4 – Effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff

8. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Nid oedd diweddariad i'w roi. Fodd bynnag, nodwyd bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cael briff ynghylch Mamwladoli Ardoll gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a'i bod wedi dangos cefnogaeth lawn o ran cymryd y mater i'w drafod gyda Llywodraeth Llundain.

9. **I dderbyn adroddiad llafar am Adolygiad Llywodraeth Cymru o HCC**

Nodwyd bod yr adolygiad gan Kevin Roberts bellach wedi ei gwblhau.

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o argymhellion yr adroddiad a chafodd y Bwrdd ei atgoffa ganddo am gyfrinachedd unrhyw faterion a gâi eu trafod yn y cyfarfod:-

**CRYNODEB O ARGYMHELLION**

- HCC i barhau'n gwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru.
- Yr Ardoll Cig Coch statudol i barhau oddi mewn i ddiwydiant cig coch Cymru.
- Mwy o ganolbwyntio ar hyrwyddo allforion ochr yn ochr â hyrwyddo parhaus yn y farchnad gartref.
- Dylai HCC gynnal arolwg i ganfod faint o gynhyrchion newydd sy'n cael eu datblygu yn y sector cig coch, canfod pa mor llwyddiannus ydynt a rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.
- Rhaid i HCC weithio mewn partneriaeth â chontractwyr cyflawni Cyswllt Ffermio os yw am gyflawni ei gylch gwaith o drosglwyddo gwybodaeth mewn ffordd integredig a chost effeithiol.
- Dylai Bwrdd HCC gynnal arolwg o'i benderfyniadau buddsoddi bob tair blynedd a gwneud yn siŵr eu bod yn debygol o gael yr effaith fwyaf posibl, yn seiliedig ar y data diweddaraf ynghylch enillion buddsoddiad. Roedd hyn yn cynnwys y buddsoddiad mewn trosglwyddo gwybodaeth.
- Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, ystyried cynnwys statws ymddiriedolaeth i Ardoll ffermwyr ym Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010.
- HCC i gynnal cyfarfod blynyddol ffurfiol a gâi ei ddarlledu'n fyw dros y rhyngrwyd er mwyn cael yr ymgysylltiad a'r ddealltwriaeth gorau posibl o waith y sefydliad.
- Dylai HCC wneud mwy o waith cost-effeithiol ar y cyd â Byrddau Ardoll eraill Prydain, Rhaglen Cyswllt Ffermio a FAWL er mwyn cyflawni mwy ar ran talwyr Ardoll.

- Llywodraeth Cymru i arwain y broses o recriwtio i Fwrdd HCC, gyda chynrychiolydd o HCC a chynrychiolydd annibynnol priodol yn cynorthwyo.
- Bwrdd HCC i chwarae rhan weithredol yn natblygu'r cynllun strategol i wneud yn siŵr o berchnogaeth o'r cyfan.
- Yn y dyfodol, rhaid i bawb a benodir i'r Bwrdd, fel rhan o'u cylch gwaith, chwarae rhan weithredol mewn rhoi gwybod am waith HCC a'r Bwrdd i dalwyr Ardoll.
- Dylai Bwrdd HCC gynnwys aelodau sydd â phrofiad / cymwysterau proffesiynol o ran marchnata a hyrwyddo a materion ariannol i sicrhau craffu a herio'r Weithrediaeth yn gadarn.
- Yn y dyfodol dylai cyfansoddiad y Bwrdd fod yn fwy cytbwys o ran dynion a menywod.
- Llywodraeth Cymru i adolygu'r holl ddogfennau ymgorffori presennol, gwneud yn siŵr fod yna ddogfen fframwaith berthynas ffurfiol a bod y dogfennau ymgorffori yn adlewyrchu'r fframwaith hwn. Dylai llythyr cylch gwaith blynyddol fod ynghlwm wrth hyn.
- Rhaglen o gyfarfodydd ffurfiol i'w cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a HCC, a'r rhain yn cael eu cofnodi. Byddai'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys cyd-drefnu gweithgareddau rhwng HCC a Llywodraeth Cymru er mwyn atal dyblygu ymdrech a gwariant.
- Cadeirydd HCC i gyfarfod yn ffurfiol â'r Ysgrifennydd Cabinet unwaith y flwyddyn.
- Dylid cael mwy o integreiddio o waith HCC â rhaglenni gweithgaredd partneriaid yn y cyfnod cynllunio er mwyn atal dyblygu.
- HCC a Llywodraeth Cymru i barhau i chwilio am ddatrysiad cynnar i ddosbarthiad yr Ardoll Cig Coch.
- Llywodraeth Cymru i ystyried faint of gynnyrch organig sydd ei angen yn y gadwyn fwyd a'r potensial i wella'r sefyllfa drwy hyrwyddo.
- Llywodraeth Cymru a HCC i gydweithio er mwyn ystyried sut y gellid cadw nod ansawdd i Gig Oen Cymru a  Chig Eidion Cymru yn dilyn ymadawiad y DG o'r Undeb Ewropeaidd.

Disgwylid y byddai'r Ysgrifennydd Cabinet yn cyflwyno Datganiad Ysgrifenedig ynglŷn â'r adroddiad yn ystod yr wythnosau nesaf.

10. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ynghylch cais HCC am gyllid gan y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020 ar ran y Diwydiant Cig Coch</u>**

Rhoddwyd y diweddaraf i'r cyfarfod gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Nodwyd bod HCC, oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd, wedi cael gwybod y byddai'n rhaid newid y cais fel bod llai o ffermwyr yn cymryd rhan yn y gwahanol brosiectau. Clywodd hefyd na fydd modd bellach ad-dalu cynhyrchwyr am ddarparu data busnes i'r prosiect er mwyn llunio set ddata gynhwysfawr ar gyfer y diwydiant. O'r herwydd, byddai'r Weithrediaeth yn mynd ati i ddiwygio'r cais,

Câi'r cais diwygiedig ar gyfer y Rhaglen Sector Cig Coch ei gyflwyno i WEFO ar-lein tua diwedd Medi / dechrau Hydref 2016, a'r teitl fyddai "Ffyrdd newydd o adeiladu Sector Cig Coch cystadleuol, effeithlon a gwydn yng Nghymru."

11. **<u>EIDCymru</u>**

a. *<u>I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid</u>*

Nodwyd bod staff Swyddfa rhan-amser ychwanegol wedi eu penodi i gynorthwyo yn ystod y cyfnod brig hwn o ran symud ŵyn. Roedd hyd at 700 o drwyddedau symud yn cael eu derbyn bob dydd ar hyn o bryd. Cafodd slipiau gwybodaeth eu cynhyrchu a'u dosbarthu er mwyn cymell ffermwyr i gofnodi symudiadau ar-lein.

b. *<u>Papur er gwybodaeth: Cyfrifon Blynyddol EIDCymru 2015 / 2016 (HCC 711)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

12. **<u>Y Pwyllgor Cynghori Y&D</u>**

*<u>I dderbyn adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Medi 2016</u>*

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am y materion a drafodwyd yn y cyfarfod: -

- Cyflwynodd Clare Collett, myfyrwraig PhD KESS, wybodaeth am ei phrosiect sy'n ymwneud â phrofion, lle ceir y canlyniadau yn y fan a'r lle, i ganfod pa mor effeithiol yw triclabendasol rhag parasitiaid llyngyr yr iau mewn da byw

- Ni chafodd unrhyw brosiectau eu cyflwyno i'w hystyried.

- Nodwyd bod HCC wedi cyfarfod â Penny Dowdney, cydlynydd ysgoloriaethau ymchwil KESS yng Nghymru i drafod y ffenestri ymgeisio perthnasol ar gyfer KESS 2. Argymhellwyd y dylai HCC, trwy swyddfa KESS, alw am geisiadau o dan eu prif amcanion busnes. Byddai'r alwad yn rhedeg am chwe wythnos o ddiwedd Awst 2016.

- Trafodwyd y bygythiad i ddefaid gan drogod. Gofynnwyd i HCC ymchwilio i fynychder trogod a'u bygythiad yng Nghymru ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu.

13. **Pwyllgor Monitro Strategaeth Cig Coch**

a. *I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Monitro Strategaeth Cig Coch a gynhaliwyd ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2016 (HCC 712)*

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2016:-

Rhannwyd â'r Pwyllgor yr Adroddiad Monitro Drafft ar gyfer 2015-2016 a oedd yn nodi'r hyn a gyflawnwyd yn ôl yr hyn a wnaed rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016.

Trafododd y Pwyllgor nifer o faterion mewn perthynas â'r gweithgareddau a gyflawnwyd.

Roedd y Pwyllgor wedi cytuno ar gynnwys yr adroddiad ac wedi penderfynu y dylid ei gyflwyno i'r Bwrdd er mwyn ei gymeradwyo.

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Monitro Cig Coch a gynhaliwyd ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

b. *I dderbyn a chymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol 2015 / 2016 o'r Cynllun Gweithredu Strategol (Gweledigaeth 2020) (HCC 713)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth, cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Câi'r adroddiad ei anfon at yr Ysgrifennydd Cabinet i'w gymeradwyo.

14. **Awdurdodi Gweithrediaeth HCC i fod yn llofnodwyr yn y broses o gofrestru Dynodiad Nodau Ardystio ar gyfer Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI mewn gwledydd ledled y byd**

Cafodd yr uchod ei gytuno gan y Bwrdd.

15. **<u>I ystyried ymateb drafft i ymgynghoriad ynghylch cais i gofrestru'r enw "Cig Oen Mynyddoedd Cambria" fel Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) o dan Gynllun Enw Bwyd Gwarchodedig yr UE (HCC 714)</u>**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd fod ymateb HCC yn briodol oherwydd roedd yn ceisio cyflwyno sylwadau adeiladol i'r cais ynghylch cydweithredu a chydweithio yn y dyfodol. Nodwyd nad oedd ymateb HCC yn gwrthwynebu cais Mynyddoedd Cambria.

Cytunwyd ar yr ymateb drafft gan y Bwrdd.

16. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

*<u>Gwneud defnydd cyfrifol o Feddyginiaethau ym Mhwyllgor y Gynghrair Amaeth (Ruma)</u>*

Am fod y defnydd o feddyginiaethau wrth gynhyrchu da byw yn mynd yn fater sy'n cael sylw cynyddol, byddai angen i'r diwydiant yn gyffredinol gydweithio i fynd i'r afael â'r mater. Roedd Pwyllgor Ruma ar hyn o bryd yn gwneud llawer o waith yn y maes hwn, ond ymddengys na chafwyd unrhyw gynrychiolaeth o Gymru.

Cytunwyd i ymchwilio i aelodaeth Pwyllgor Ruma.

*<u>Deunydd man gwerthu newydd HCC ar gyfer Cig Oen Cymru PGI</u>*

Roedd yr uchod ar gael yn y cyfarfod er mwyn i'r Bwrdd ei astudio.

17. **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>**

Dydd Gwener 4 Tachwedd 2016.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**